

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

25 Tachwedd 2022

Cofnodion



Yn bresennol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Y Cynghorydd Lis Burnett (LB)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y BIP	BIP Caerdydd a'r Fro
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Eirian Evans (EE - GCC)	Pennaeth De Cymru Un	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu	Llywodraeth Cymru
Y Cynghorydd Shirley Hodges (SH)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref y Barri
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru
Estelle Hitchon (EH)	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Robert Wilkinson (RW)	Arweinydd Cynllunio Gwasanaethau	BIP Caerdydd a'r Fro
Danny Richards (DR)	Prif Uwcharolygydd	Heddlu De Cymru
Emil Evans (EE - CCF)	Dirprwy Bennaeth	Coleg Caerdydd a'r Fro
John Treherne (JT)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Hefyd yn bresennol:		

Sophie Howe (SH)	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Colleen Cluett (CC)	Dadansoddwr Newid	Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Andreas Pieris-Plumley (APP)	Intern Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Lloyd Fisher (LF)	Uwch Swyddog Data a Pholisi	Cyngor Bro Morgannwg
Ymddiheuriadau:		
Suzanne Rankin (SR)	Prif Weithredwr	BIP Caerdydd a'r Fro
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Tom Bowring (TB)	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol	Cyngor Bro Morgannwg

Eitemau'r Agenda	Camau Gweithredu
<p>1. Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd LB bawb i gyfarfod y BGC.</p>	
<p>2. Ymddiheuriadau</p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p>3. Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 23 Medi 2022 ac 17 Hydref 2022 – Y Cynghorydd Lis Burnett, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd blaenorol yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfodydd.</p>	
<p>4. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - Sophie Howe</p> <p>Dechreuodd SH drwy egluro ei bod yn dod i ddiwedd ei thymor fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ôl tymor o 7 mlynedd. Mae'r comisiynydd newydd yng nghamau olaf y broses benodi a'r ymgeisydd sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth yw Derek Walker.</p> <p>Esboniodd SH ei bod hi wedi bod yn adolygu'r ffordd roedd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dros y flwyddyn ddiwethaf. Yna aeth yn ei blaen i roi trosolwg o'i chanfyddiadau a chynghorodd fod craffu ar weithredoedd caffael yn hanfodol ar gyfer cynllun gweithredu ar yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf wedi creu fframwaith pwysig, ond mae rhai bylchau gwybodaeth ac angen am ymrwymiad i gymhwyso'r Ddeddf at bolisi a gweithredu lleol. Mae problemau penodol gyda chynllunio polisi hirdymor, e.e., anghenion tai poblogaethau sy'n heneiddio, cyflogaeth, iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Dywedodd SH fod angen i lywodraethau wneud yn siŵr bod polisi ar y gweill i ystyried yr hirdymor, gan edrych ar genhedlaeth (~25 mlynedd) i ddod. Cafodd y cydweithrediad rhwng y BGC a CNC i archwilio'r model 3 Gorwel ei ganmol. Esboniodd SH fod problemau o hyd yn ymwneud â'r angen am fwy o ffocws ar atal. Fodd bynnag, roedd SH yn cydnabod y strategaeth dda sydd gan y Fro o ran bwyd a'r amgylchedd ond mae lle i wella wrth gymhwyso'r egwyddorion yn gadarn ar y Ddeddf. Mae cysylltiadau'n cael eu gwneud yn fwy effeithiol mewn gwahanol feysydd Les a'r nodau ac amcanion Lles. Ond nid oes gan y bwch sydd i'w weld yn aml ddigon o ffocws ar ddiwylliant a'r Gymraeg a gwelir hyn yng Nghynllun Llesiant y Fro hefyd.</p> <p>Disgrifiodd SH sut mae Goodsheds yn y Barri yn wych, a hoffai weld mwy o gynlluniau fel hyn yn cael eu cyflwyno. Dylid gwella'r cynnig creadigol a diwylliannol, a chanmolwyd yr BIP hefyd am wneud cysylltiadau da rhwng y celfyddydau ac iechyd. Fodd bynnag, mae dal angen mwy yn ein Cynllun Llesiant newydd.</p>	

Esboniodd SH fod y 3 blaenoriaeth yn ein Cynllun yn dda ac yn gryno, fodd bynnag mae angen mwy yn ein cynllun ynghylch sut rydyn ni'n mynd i gyflawni ein blaenoriaethau. Mae angen cael lefel o fanylion ynghylch sut rydyn ni'n mynd i gyflawni, gan edrych ar gamau gweithredu mewn sefydliadau penodol.

Eglurodd SH fod Cymru'n gwneud yn dda iawn yn amgylcheddol, ac er nad ydyn ni'n berffaith rydyn ni ar y llwybr iawn. Mae angen cael nodau hirdymor sy'n flaenoriaeth tra hefyd yn cael eu cydbwyso gydag anghenion/argyfyngau tymor byr. Mae'r gwaith rydyn ni'n ei wneud ar systemau bwyd cynaliadwy yn enghraifft wych o bolisi hirdymor.

Gwnaeth SH sylwadau i gloi yn dweud bod angen i ni ddal ati a gwneud yn dda a diolchodd am yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni hyd yn hyn.

Diolchodd FK i'r Comisiynydd gan dynnu sylw at sut mae ei rôl mae bob amser yn ymwneud â systemau meddwl a gweithio drwy'r mecanweithiau y byddwn yn ceisio cyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwyddyn nhw. Nododd FK nad oes angen i bopeth fynd i mewn i un cynllun. Nid oes angen i Gynllun Lles y BGC gael popeth ynddo gan y bydd gan gynlluniau eraill mewn gwahanol sefydliadau fanylion ategol a bydd hyn yn helpu i ganolbwyntio'r Cynllun Llesiant ar ychydig o bethau i sicrhau newid.

Cytunodd EH gyda FK ac esboniodd fod cymhlethdod y bensaerniaeth rydyn ni'n gweithredu o'i mewn yn golygu y gallai fod gennym amcanion sy'n cystadlu neu'n gorgyffwrdd yn dibynnu ar ba fwrdd rydych chi'n eistedd arno. Nododd EH yr anawsterau o ran sut mae torri drwy'r rhwystrau (nid rhwystrau bwriadol o reidrwydd) y gallai cylch gwaith pob bwrdd eu creu gan gyfyngu ar yr hyn y gellir ei wneud?

Cytunodd SH gyda'r sylwadau a wnaed gan FK ac EH. Mae tirwedd lywodraethu rhy gymhleth. Nid yw'r cysylltiadau rhwng byrddau bob amser yn glir ac eglurodd SH sut mae hi'n credu y dylai'r BGC fod ar frig hierarchaeth y byrddau.

Dyweddodd SH y dylem ofyn y cwestiwn yn barhaus sut mae blaenoriaethau'n cysylltu'n ôl â phob bwrdd rydych chi'n eistedd arno. Rhaid i ni herio'n rheolaidd sut mae blaenoriaethau'r byrddau partneriaeth rhanbarthol hyn yn cysylltu'n ôl â blaenoriaethau'r BGC. Yn ei hadolygiad mae hi'n dadlau bod angen mwy o eglurder am rôl cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn helpu byrddau gwasanaeth cyhoeddus i lywio cymhlethdodau llywodraethu, a sut mae gwahanol flaenoriaethau byrddau yn cysylltu.

Dyweddodd EH ei bod yn aml yn tynnu sylw at ddryswch polisi i Lywodraeth Cymru, gan esbonio os yw popeth yn flaenoriaeth, yna does dim yn flaenoriaeth.

Dyweddodd LB ein bod wedi dod yn bell ond bod cryn bellter eto i fynd. Nid chwarae plant yw cynllunio ar gyfer y tymor hir, yn enwedig tra bod awdurdodau lleol yn gorfod canolbwyntio ar wasanaethau statudol oherwydd yr amgylchedd economaidd presennol.

Dyweddodd RT bod y pum ffordd o weithio yn hollbwysig ac wedi'u gwreiddio yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Fodd bynnag, y brif flaenoriaeth ar hyn o bryd yw cydbwyso'r gyllideb. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i wasanaethau statudol fod yn ffocws yn ystod yr argyfwng costau byw hwn gan fod y rhain yn bwysig ar gyfer lles. Disgrifiodd RT sut mae'r rhain wrth wraidd yr agenda ataliol. Felly er bod angen i ni gynllunio gwasanaethau hirdymor, mae'n rhaid i ni flaenoriaethu gwasanaethau statudol tymor byr hefyd. Mae adegau fel nawr pan fydd yn rhaid canolbwyntio ar oroesi, er bod nodau hirdymor yn dal

<p>yn bwysig ac yn rhan o bopeth rydyn ni'n ei wneud. Adleisiodd RT y ganmoliaeth i waith partneriaeth.</p> <p>Eglurodd JC mai rhan o'i rôl hi fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yw gweithio gyda'r BGC i adnabod y meysydd hynny o wrthdaro ac adrodd yn ôl. Ar y mater ynghylch bod gormod o grantiau penodol mae'n gais mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn ei wneud ar ran lywodraeth leol i gyd ac mae gwaith yn digwydd arno. Ond mae'n debyg y bydd rhai grantiau penodol yn cael eu cadw gan fod rhai yn awyddus i sicrhau bod arian yn cael ei ddiogelu ar gyfer rhai meysydd gwaith penodol... Byddai'n ddefnyddiol pe bai hynny'n cael ei adlewyrchu pan fo newid yn ceisio cael ei wneud gan y gall fod llawer o wthio yn ôl o'r tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Cytunodd SH â JC ynglŷn â grantiau. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ailedrych ar hyn oherwydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae dysgu wedi bod yn sylweddol drwy Covid a gall ein helpu gyda'r argyfwng nesaf hwn. Gall rhai cynlluniau hirdymor hefyd helpu yn y tymor byr e.e., partneriaethau bwyd, y cwricwlwm addysg.</p> <p>Diolchodd LB i SH am fynychu'r cyfarfod.</p>	
<p>5. Trafod - Pwysau ar Gyllideb 2023-24</p> <p>Eglurodd RT fod maes sy'n achosi pwysau ar gostau y mae'r Cyngor yn delio â nhw ar hyn o bryd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Chwyddiant. Mae pwysau chwyddiant yn rhywbeth na allwn wneud fawr ddim amdano, ond mae'n arwyddocaol iawn, ac yn cynnwys prisiau ynni a dyfarniadau cyflog yn bennaf. 2. Demograffeg. Mae twf yn y boblogaeth a phroffil oedran yn effeithio'n arbennig ar ysgolion a gofal cymdeithasol. 3. Buddsoddi. Roedd y pwysau hwn yn £5-6m ar ddechrau'r broses ond bellach mae wedi ei leihau i bron ddim. Mae'n anodd buddsoddi pan nad oes llawer o arian i gefnogi'r gwasanaethau presennol. 4. Eraill. Nid yw'r rhain yn disgyn yn dwt i unrhyw un o'r tri chategori arall. <p>Nododd RT fod cyfanswm y bwch yng nghyllideb y Cyngor ar ddechrau cyfnod cynllunio cyllideb 2023-24 yn £38 miliwn. Er ei fod yn cael ei leihau, mae hwn yn ffigwr sy'n sylweddol fwy o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae gennym rai cronfeydd wrth gefn ac rydym yn ystyried sut rydym yn defnyddio'r cronfeydd hynny wrth gefn p ran meysydd/gwasanaethau sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae gwasanaethau statudol yn bwysig iawn ond hefyd rhai o'r gwasanaethau eraill fel gweithio mewn partneriaeth, felly rydym yn edrych ar sut mae hyn yn cael ei gefnogi hefyd. Dywedodd RT y bydd y sefydliad yn ymdopi ac fe ddown ni drwy'r heriau hyn, ond maen nhw'n arwyddocaol.</p> <p>Diolchodd CJ i RT am esbonio sut mae pethau. Anogodd CJ ni i gyd i gydweithio gan y gall penderfyniadau a wnawn fel sefydliadau unigol yn effeithio ar sefydliadau eraill, felly mae angen i ni ddod at ein gilydd i fynd trwy hyn yn llwyddiannus.</p>	

<p>Eglurodd FK fod amcangyfrif y bydd y pwysau ar gyllideb 23/24 y bwrdd iechyd yn £26.9m, o'i gymharu ag £17.1m yn wreiddiol. Mae'r pwysau'n cynnwys prisiau gofal iechyd, cynllunio ar gyfer y gaeaf e.e., gwelyau ysbyty, adsefydlu ceiswyr lloches Affganistan & ac Wcráin, costau staff. Mae costau ynni'n cael eu trin ar wahân i'r diffygion eraill, ond mae'n bwysau arall.</p> <p>Holodd MB a allai fod yn ddefnyddiol casglu gwybodaeth am bwysau ar gyllidebau'r gwahanol sefydliadau i'n helpu i weithio gyda'n gilydd.</p> <p>Dywedodd MB ei bod yn gydbwysedd anodd rhwng darparu gwasanaethau a sicrhau bod gwaith partneriaeth yn derbyn cyllid. Tynnodd RT sylw at sut mae rhai pethau'n cymryd cryn amser i'w gweithredu ond bod y pwysau ar gyllidebau yn ein gorfodi i ganolbwyntio ar y tymor uniongyrchol.</p>	
<p>6. Trafodaeth - yr Argyfwng Costau Byw</p> <p>Eglurodd LB fod tudalen we Costau Byw ar wefan y cyngor. Yn ogystal â thudalen Croeso Cynnes sy'n dangos pa Fannau Cynnes sydd ar gael yn y Fro, cafodd ei lansio i ddechrau gydag 20 safle, ond mae cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi bod ei ryddhau a bydd hynny'n cynyddu'r nifer o Fannau Cynnes.</p>	
<p>7. Cyflawni ein Hamcanion Llesiant gan gynnwys Llywodraethu a'r sail tystiolaeth –</p> <p>Esboniodd EM fod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Llesiant drafft wedi dechrau ym mis Tachwedd a bydd yn para tan ddiwedd Ionawr 2023. Mae yna hefyd waith parhaus yn digwydd ar y sail dystiolaeth gan LF. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud i wireddu'r Amcanion Llesiant a'r llifoedd gwaith â blaenoriaeth a bydd yn cynnig cyd-destun a gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n seilio ar Aseiad Llesiant.</p> <p>Soniodd LF am y gwahanol adroddiadau mae'r sail dystiolaeth yn dod ohonyn nhw, ac esboniodd sut mae pedwar adroddiad o'r Aseiad Lles sy'n sylfaen i'r sail dystiolaeth. Y rhain yw: yr adroddiad demograffig, yr adroddiad addysg a chyflogaeth, yr adroddiad iechyd a chymunedau, a'r adroddiad amgylcheddol a thrafnidiaeth. Mae'r data o'r adroddiadau hyn wedi'i wreiddio i PowerBI a Microsoft Sway fel y gellir ei gyflwyno a'i ystyried i'w ddadansoddi ymhellach.</p> <p>Disgrifiodd HM sut mae'r gwaith yn datblygu ac y byddai'n gwerthfawrogi unrhyw adborth ar y sail dystiolaeth. Atgoffwyd pawb o'r blaenoriaethau a'r amcanion yn y cynllun Llesiant drafft. Dywedodd HM fod Swyddog Deall Pobl Hŷn bellach mewn swydd yn sgil cyllid gan Lywodraeth Cymru ac eisoes wedi bod yn estyn allan i'r cyhoedd. Mae gwaith gyda chymunedau difreintiedig hefyd yn mynd rhagddo, a defnyddiwyd y grant BGC i ariannu gwaith gyda sefydliad o'r enw Grasshopper i ddeall mwy ar ein cymunedau mwy difreintiedig ac i lywio cynllun ymgysylltu.</p> <p>Esboniodd HM strwythur llywodraethu'r BGC a gwaith arall mewn partneriaeth, gan dynnu sylw ar yr un pryd at beth o'r gwaith partneriaeth sy'n digwydd megis ar dlodi bwyd a materion amgylcheddol.</p> <p>Canmolodd FK y gwaith da sy'n digwydd a chododd ambell bwynt ynghylch y strwythur llywodraethu. O ran diogelwch cymunedol, mae angen ystyried sut mae'r Bwrdd</p>	

<p>Cynllunio Ardal yn bwydo mewn i'r system. Ar gyfer partneriaethau bwyd dylen ni gael partneriaethau gweithredol o dan y Bwrdd Atal.</p> <p>Dywedodd HM hefyd bod arian yn dod drwodd gan Lywodraeth Cymru i gryfhau'r gwaith gyda phartneriaethau bwyd.</p>	
<p>8. Blaenraglen Waith 2023 -</p> <p>Esboniodd HM ddyddiadau cyfarfodydd y flwyddyn nesaf. Bydd diweddariad ynghylch ymgynghoriad y cynllun Llesiant yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Ionawr. Bydd cyfarfod mis Chwefror yn ystyried newidiadau i'r cynllun Llesiant ar ôl ymgynghoriad fel bod modd ei anfon yn ôl i sefydliadau i'w gadarnhau yn barod ar gyfer y gymeradwyaeth ffurfiol ar 3 Mai. Dywedodd HM y bydd yn anfon e-bost i gadarnhau'r amserlenni o ran cymeradwyo'r Cynllun Llesiant. Dywedodd HM os oes gan sefydliadau eitemau y maen nhw am eu cynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf, yna rhowch wybod iddi a gellir eu cynnwys.</p> <p>Nododd FK y bydd ei hadroddiad fel Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2022 a bydd wedi mynd i'r bwrdd ym mis Ionawr ond y gallai gael ei gynnwys yn agenda cyfarfod Ebrill 2023.</p>	
<p>9. Unrhyw Fater Arall -</p> <p>Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.</p>	
<p>10. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 23 Ionawr 10-12pm</p>	